



Ffurflen Gais Cronfa Adfywio Cymunedol y DU

Mae'r ffurflen hon ar gyfer ymgeiswyr prosiect, sy'n ymgeisio am arian o Gronfa Adfywio Cymunedol y DU ledled y DU. **Mae Atodiad D yn y ddogfen hon yn cynnwys Canllawiau Cyffredinol ar gyfer Cwblhau'r Ffurflen Gais.**

Mae Prosbectws Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, Meini Prawf Asesu, Nodyn Technegol ar gyfer Ymgeiswyr a Chyflawnwyr Prosiect a Nodyn Technegol ar gyfer Awdurdodau Arweiniol ar gael [yma](#).

Dylai lefel y wybodaeth a ddarperir fod yn gymesur â maint a chymhlethdod y prosiect a gynnigir.

Gwybodaeth Ymgeisydd

Enw'r ymgeisydd:

Enw a swydd Rheolwr y Cynnig:

Enw a swydd y swyddog sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am gyflawni'r prosiect

Rhif ffôn cyswllt:

Cyfeiriad e-bost:

Cyfeiriad post:

Gwefan:

Rhif Cofrestru Cwmni (Ile bo hynny'n berthnasol):

Rhif Cofrestru Elusen (Ile bo hynny'n berthnasol):

Manylion cyswllt yr Uwch Swyddog Cyfrifol:

Cadarnhewch y math o sefydliad:

- Awdurdod lleol
- Sector preifat
- Sector gwirfoddol
- Prifysgol

- Coleg Addysg Bellach (FE)
- Arall (nodwch)

Gwerth sy'n cael ei ymgeisio (£):

Y Cynnig - blaenoriaeth buddsoddi

Dewiswch pa flaenoriaeth neu flaenoriaethau buddsoddi y Gronfa Adfywio Cymunedol y DU ydych yn gwneud cais o dan:

- Buddsoddi mewn sgiliau
- Buddsoddi i fusnesau lleol
- Buddsoddi mewn cymunedau a lleoedd
- Cefnogi pobl i gyflogaeth

Ymgeiswyr Sector Preifat a Gwirfoddol yng Ngogledd Iwerddon.

Cadarnhewch eich bod wedi atodi copi o gyfrifon diweddaraf yr ymgeisydd.

DO/NA

Rhan 1 - Crynodeb o'r Prosiect

1a Enw'r Prosiect			
Am gwestiynau 1b i 1f, disgrifiwch mewn 500 gair neu lai. Byddwch mor gryno â phosibl.			
1b Pa weithgareddau fydd yn digwydd?			
1c Pwy fydd yn cyflwyno'r gweithgareddau?			
1d Sut bydd y gweithgareddau'n cael eu cyflawni?			
1e Pwy fydd buddiolwyr y prosiect?			
1f Ble bydd y gweithgareddau'n cael eu cynnal?			
1g Pryd fydd y prosiect yn dechrau?		Pryd fydd y prosiect yn dod i ben?	
1h Pa leoedd (dosbarthau neu ardaloedd unedol) fydd yn elwa o'r gweithgaredd?			
Ardal Awdurdod Lleol		Canran fras y gweithgaredd/gwariant	
1i Beth yw'r cerrig milltir allweddol ar gyfer datblygu a gweithredu'r prosiect?			
Carreg filltir			Mis Targed

Rhan 2 - Effaith y Prosiect

Am gwestiynau 2a i 2d, disgrifiwch mewn 500 gair neu lai. Byddwch mor gryno â phosibl.

2a Beth fydd buddion byrdymor a hirdymor y prosiect i'w fuddiolwyr a'r gymuned ehangach?

2b Sut mae'r cynnig yn cyd-fynd ag anghenion lleol a chynlluniau strategol hirdymor ar gyfer twf lleol?

2c Sut mae'r prosiect yn cefnogi uchelgeisiau Sero Net y Llywodraeth neu ystyriaethau amgylcheddol ehangach? (Nid yw hyn yn ofyniad ar gyfer cynigion cymorth cyflogaeth)

2d Sut mae'r prosiect yn dangos arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau?

2e Pa grwpiau y bydd eich prosiect Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn eu targedu?

Disgrifiwch isod a chwblhewch Atodiad A - Dangosyddion Effaith y Prosiect

2f Disgrifiwch sut rydych wedi ystyried effeithiau cydraddoldeb eich cynnig, y grwpiau perthnasol yr effeithir arnynt yn seiliedig ar nodweddion gwarchoddedig, ac unrhyw fesurau rydych yn eu cynnig mewn ymateb i'r effeithiau hyn.

2g Pa Ganlyniadau Cronfa Adfywio Cymunedol y DU y bydd y prosiect yn eu cyflawni?

Disgrifiwch isod a chwblhewch Atodiad A - Dangosyddion Effaith y Prosiect

2h Sut mae'r canlyniadau wedi'u hamcangyfrif?

2i A fyddech yn disgwyl cyflawni unrhyw un o'r canlyniadau hyn heb gymorth gan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU?

Rhan 3 - Pecyn Cyllido

3a Faint o fuddsoddiad Cronfa Adfywio Cymunedol y DU a geisir?

Cwblhewch Atodiad B hefyd - Pecyn a Phroffil Cyllido

3b A yw'r pecyn cyllido yn cynnwys unrhyw arian cyfatebol? Os felly, faint?

Pryd fydd unrhyw gyllid nad yw ar waith yn cael ei sicrhau?

3c Ar beth fydd y pecyn cyllido yn cael ei wario?

3d Sut mae'r gyllideb gyffredinol wedi'i hamcangyfrif, beth sydd wedi'i wneud i brofi ei bod yn gywir, sut fyddai unrhyw gostau annisgwyl yn cael eu rheoli?

Rhan 4 - Profiad a Chapasiti Ymgeisydd y Prosiect

Cyfyngwch eich ymatebion i bob cwestiwn i 250 gair neu lai. Byddwch mor gryno â phosibl.

4a Pa brofiad sydd gan y sefydliad o gyflawni'r math hwn o weithgaredd?

4b Disgrifiwch yr adnoddau (e.e. staff) sydd gan y sefydliad ar gael nawr i gyflawni'r prosiect?

4c Os bydd yn rhaid i'r sefydliad recriwtio staff neu benodi contractwyr pa gynlluniau sydd ar waith i reoli'r risg o oedi?

4d Disgrifiwch y systemau a'r prosesau fydd yn cael eu defnyddio i sicrhau mai dim ond costau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r prosiect fydd yn cael eu cynnwys mewn ceisiadau am grant.

Rhan 5 - Rheoli Risgiau'r Prosiect

Cyfyngwch eich ymatebion i bob cwestiwn i 250 gair neu lai. Byddwch mor gryno â phosibl.

5a Crynhowch y risgiau allweddol i'r prosiect yn Atodiad C - Risgiau'r Prosiect

5b Disgrifiwch y broses a fydd yn cael ei defnyddio i fonitro risg.

Rhan 6 - Gwerthuso

6a Un o amcanion allweddol Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yw rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o ddarparu gweithgaredd i fusnesau a phobl. Mae'n bwysig bod prosiectau'n cael eu gwerthuso'n gadarn a bod dysgu'n cael ei rannu ag eraill.

Cyfyngwch eich ymatebion i oddeutu 500 gair a disgrifiwch

- sut y bydd y prosiect yn cael ei werthuso, o ran sut y cafodd ei gyflawni a'i effaith ar gleientiaid
- sut y bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn cael eu lledaenu

Rhan 7 - Rheoli Cymhorthdal

Rhaid i bob cynnig hefyd ystyried sut y byddant yn cyflawni yn unol â rheolaeth cymhorthdal (neu Gymorth Gwladwriaethol am gymorth yng nghwmpas Protocol Gogledd Iwerddon) yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU: <https://www.gov.uk/government/publications/complying-with-the-uks-international-obligations-on-subsidy-control-guidance-for-public-authorities>

7a A yw unrhyw agwedd ar y prosiect yn cynnwys darparu cymorthdaliadau (neu Gymorth Gwladwriaethol)?

Ydy/Na

7b Os felly, eglurwch yn fyr sut mae'r cymorthdaliadau neu gymorth gwladwriaethol yn cydymffurfio â threfn rheoli cymhorthdal y DU fel y nodir yn y canllawiau.

Rhan 8 - Brandio a Chyhoedduswydd

Nodir canllawiau ar y gofynion brandio a chyhoedduswydd ar gyfer Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn Nodyn Technegol y Gronfa ar gyfer Cyflenwyr Prosiect.

8a Cadarnhewch eich bod wedi darllen a byddwch yn cydymffurfio â phob agwedd ar ofynion brandio a chyhoedduswydd y Gronfa.

Byddaf/Na

Diogelu Data

Noder y bydd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (yr Adran) yn Rheolwr Data ar gyfer holl Ddata Personol sy'n gysylltiedig â Chronfa Adfywio Cymunedol y DU a gesglir gyda'r ffurflen hon a chyflwynir i'r Adran, a rheoli a phrosesu Data Personol.

Dynodwyd Awdurdodau Maerol Cyfunedig, Awdurdod Llundain Fwyaf, Cyngorau Sir neu Awdurdodau Unedol, yn 'Awdurdod Arweiniol' ym Mhrydain Fawr ar gyfer Cronfa Adfywio Cymunedol y DU. Gwahoddwyd pob Awdurdod Arweiniol i redeg proses gynig leol a byddant yn Rheolwr Data ar gyfer holl Ddata Personol sy'n gysylltiedig â Chronfa Adfywio Cymunedol y DU a gesglir gyda'r ffurflenni perthnasol fel rhan o'r broses hon, a rheoli a phrosesu Data Personol, lle mae ceisiadau o'r fath ni chânt eu cyflwyno i'r Adran i'w hystyried.

Bydd yr Awdurdod Arweiniol (ym Mhrydain Fawr) a'r Adran yn prosesu'r holl ddata yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU 2018 (GDPR y DU) yr holl gyfreithiau a rheoliadau cymwys sy'n ymwneud â phrosesu Data Personol a phreifatwydd, gan gynnwys, lle bo angen, y canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth ac unrhyw reoliadau diogelu data perthnasol eraill (gyda'i gilydd "y Ddeddfwriaeth Diogelu Data (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd)").

Fel Prosesydd Data Personol sy'n gysylltiedig â Chronfa Adfywio Cymunedol y DU, rhaid i'ch sefydliad a'r Awdurdod Arweiniol (wrth weithredu ym Mhrydain Fawr) sicrhau bod Data Personol o'r fath yn cael ei brosesu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd).

Trwy fynd ymlaen i lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon, rydych yn cydsynio y gall yr Awdurdod Arweiniol (ym Mhrydain Fawr) a'i gontractwyr lle bo hynny'n berthnasol, a'r Adran, a'i chontractwyr lle bo hynny'n berthnasol, brosesu'r Data Personol y mae'n eu casglu gennych, a defnyddio'r wybodaeth a ddarperir fel rhan o'r cais i'r Adran am arian gan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU, yn ogystal ag yn unol â'i pholisïau preifatwydd. At ddibenion asesu'ch cynnig efallai y bydd angen i'r Adran rannu eich Data Personol ag adrannau eraill y Llywodraeth (fel yr Adran Gwaith a Phensiynau) ac adrannau yn y Gweinyddiaethau Datganoledig a thrwy gyflwyno'r ffurflen hon rydych yn cytuno i'ch Data Personol gael ei ddefnyddio fel hyn.

Mae gan Reolwr Data, Data Personol, Data Personol a Phrosesydd i gyd yr ystyr a roddir iddynt yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd).

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sut mae'r Adran yn delio â'ch data yma:

Rhan 9 - Datganiad Ymgeisydd y Prosiect

Rwyf yn datgan bod gennyf yr awdurdod i gynrychioli ymgeisydd y prosiect wrth wneud y cais hwn. Deallaf nad yw derbyn y ffurflen gais hon gan yr Awdurdod Arweiniol (ym Mhrydain Fawr) na'r Weinyddiaeth Cymunedau Tai a Llywodraeth Leol (yr Adran) mewn unrhyw ffordd yn dynodi bod y prosiect yn gymwys i gael cyllid o dan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU neu fod unrhyw arian o'r fath wedi'i gymeradwyo tuag ato.

Ar ran ymgeisydd y prosiect ac ar ôl cynnal ymholiad llawn a phriodol, rwyf yn cadarnhau i'r Awdurdod Arweiniol (ym Mhrydain Fawr) a'r Adran:

- mae gan ymgeisydd y prosiect yr awdurdod cyfreithiol i gyflawni'r prosiect; a
- mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn yn gywir.

Rwyf hefyd yn cadarnhau i'r Awdurdod Arweiniol (ym Mhrydain Fawr) a'r Adran:

Rwyf wedi hysbysu pawb yr wyf wedi darparu eu gwybodaeth bersonol am fanylion y wybodaeth bersonol a roddais i chi ac am y dibenion y bydd y wybodaeth hon yn cael eu defnyddio ar eu cyfer, a bod gennyf ganiatâd yr unigolion dan sylw i drosglwyddo'r wybodaeth hon i chi at y dibenion hyn;

Rwyf yn cydsynio i'r Data Personol a gyflwynir gyda'r ffurflen hon gael ei rannu fel y'i nodir ar y ffurflen hon ac yn unol â Pholisïau Preifatrwydd yr Awdurdod Arweiniol (ym Mhrydain Fawr) a Pholisïau Preifatrwydd yr Adran;

Byddaf yn hysbysu'r Awdurdod Arweiniol (ar gyfer prosiectau Prydain Fawr) os deuf, cyn i unrhyw Gyllid Adfywio Cymunedol yn y DU ymrwmo'n gyfreithiol i'r ymgeisydd prosiect, yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth bellach y gellid yn rhesymol ei hystyried yn berthnasol i'r Awdurdod Arweiniol neu'r Adran wrth benderfynu a ddylid ariannu'r cynnig;

Ar gyfer prosiectau Gogledd Iwerddon, byddaf yn hysbysu'r Adran, cyn i unrhyw Gyllid Adfywio Cymunedol yn y DU ymrwmo'n gyfreithiol i ymgeisydd y prosiect, y deuf yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth bellach y gellid yn rhesymol ei hystyried yn berthnasol i'r Adran wrth benderfynu a ddylid ariannu'r cynnig;

Bydd unrhyw arian cyfatebol a nodwyd yn rhan 3 ar waith cyn dyfarnu Cyllid Adfywio Cymunedol y DU; ac

Rwyf yn ymwybodol, os yw'r wybodaeth a roddir yn y cais hwn yn ymddangos yn ffug neu'n gamarweiniol, gall yr Awdurdod Arweiniol (lle bo hynny'n berthnasol) neu'r Adran fynnu ad-daliad cyllid a/neu derfynu cytundeb cyllido sy'n ymwneud â'r cynnig hwn.

Rwyf yn cadarnhau fy mod yn ymwybodol y gellir gwneud gwiriadau i'r awdurdodau perthnasol i wirio'r datganiad hwn ac fe all unrhyw berson sy'n gwneud unrhyw ddatganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid at ddibenion cael cyllid grant neu at ddibenion cynorthwyo

unrhyw berson i gael cyllid grant, gael ei erlyn. Bydd datganiad ffug neu gamarweiniol hefyd yn golygu y gellir dirymu cymeradwyaeth ac y gellir atal neu adfer unrhyw grant gyda llog.

Rwyf yn cadarnhau fy mod yn deall, os yw'r ymgeisydd prosiect yn dechrau gweithgaredd prosiect, neu'n ymrwmo i unrhyw gontractau neu gytundebau yn rhwymo mewn cyfraith, gan gynnwys archebu neu brynu unrhyw offer neu wasanaethau cyn cymeradwyaeth ffurfiol y prosiect, yr eir i unrhyw wariant yn y sefydliad, eich risg eich hun a gallai olygu nad yw'r prosiect yn gymwys i gael cymorth.

Ar gyfer ac ar ran ymgeisydd y prosiect			
Enw:			
Swydd:		Dyddiad	

Atodiad A - Dangosyddion Effaith y Prosiect

1a Pa grwpiau y bydd eich prosiect Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn eu targedu?

Prif Ddangosydd	Is-set Dangosydd	Grŵp Targed	Rhif
Pobl	Anweithgar yn Economaidd	Ydy/Na	
	Di-waith	Ydy/Na	
	Cyflogedig	Ydy/Na	
	Cyfanswm		
Busnesau	Bach ¹	Ydy/Na	
	Canolig ²	Ydy/Na	
	Mawr ³	Ydy/Na	
	Cyfanswm		
Sefydliadau	Cyhoeddus	Ydy/Na	
	Preifat	Ydy/Na	
	Sector Gwirfoddol	Ydy/Na	
	Cyfanswm		

1b Pa fathau o gymorth y byddwch chi'n eu darparu trwy'ch prosiect Cronfa Adfywio Cymunedol y DU?

¹ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/46/section/382>

² <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/46/section/465>

³Unrhyw fusnes nad yw'n gymwys fel busnes bach neu ganolig

Prif Ddangosydd	Is-set Dangosydd	Math o Gymorth Arfaethedig	Rhif
Cymorth uniongyrchol	1 i 1	Ydy/Na	
	1 i sawl	Ydy/Na	
Cymorth ariannol (£oedd)	Grant	Ydy/Na	
	Taleb	Ydy/Na	
1c Pa Ganlyniadau Cronfa Adfywio Cymunedol y DU y bydd y prosiect yn eu cyflawni (gweler y Nodyn Technegol ar gyfer Ymgeiswyr a Chyflawnwyr Prosiect am fanylion)?			
Canlyniad		Cyfanswm	

Atodiad B - Pecyn a Phroffil Cyllido

	Swm		
(a) Cais o'r Gronfa Adfywio Cymunedol y DU	£		
(b) Cyllid Cyhoeddus Eraill	£	Mewn lle	Ydy/Na/Rhannol
(c) Cyllid Preifat	£	Mewn lle	Ydy/Na/Rhannol
(d) Cyfanswm Costau Prosiect (a + b + c)	£		

Proffil Gwariant. Faint fydd yn cael ei wario yn:			
Gorffennaf i Fedi 2021	£		
Hydref i Ragfyr 2021	£		
Ionawr i Fawrth 2022	£		
Cyfanswm	£	Rhaid bod yn gyfartal â (d)	
Faint o'r gyllideb fydd yn cael ei gwario ar gostau cyfalaf?	£	%	
Os bydd y prosiect yn cyflawni o dan fwy nag un o flaenoriaethau buddsoddi Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, amcangyfrifwch faint fydd yn cael ei wario o dan bob thema			
Buddsoddi mewn sgiliau	%	Buddsoddi i fusnesau lleol	%
Buddsoddi mewn cymunedau a lleoedd	%	Cefnogi pobl i mewn i gyflogaeth	%

Atodiad C – Risgiau'r Prosiect

Rheoli Risgiau'r Prosiect

Byddwch mor gryno â phosibl.

Rhowch grynodedb:

- y risgiau allweddol i gyflawniad a llwyddiant y prosiect
- pwy sy'n gyfrifol am reoli'r risg, y Perchennog
- y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd, a yw'n uchel (H), yn ganolig (M) neu'n isel (L)?
- beth fyddai effaith y risg, uchel (H), canolig (M) neu isel (L)?
- y cynlluniau lliniaru sydd ar waith i reoli'r risg sy'n digwydd neu i ddelio â'r risg os yw'n digwydd

Disgrifiad o'r Risgiau	Perchennog	Tebygolrwydd (H, M, L)	Effaith (H, M, L)	Lliniaru

Atodiad D - Canllawiau Cyffredinol ar gyfer Cwblhau'r Ffurflen Gais

Rhaid cwblhau'r cais a'i gyflwyno drwy ddefnyddio *Word*.

Disgrifiwch y prosiect mor syml â phosib. Peidiwch â defnyddio termau technegol, eglurwch unrhyw acronymau. Os na all asesydd ddeall y prosiect ni ellir ei asesu yn erbyn y meini prawf dethol, a chaiff y cynnig ei wrthod.

Mae rhai adrannau o'r ffurflen yn cynnwys arweiniad ar nifer y geiriau i'w defnyddio. Ni fydd gwybodaeth a thestun ychwanegol sy'n fwy nag unrhyw defnyddiau yn cael eu hystyried. Os yn bosibl, defnyddiwch lai o eiriau. Bydd asesiad y cynigion yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir yn y Ffurflen Gais yn unig. **Peidiwch ag atodi atodiadau na chynnwys dolenni i wefannau.**

Ni fydd Llywodraeth y DU yn cysylltu â chynigwyr i egluro unrhyw agwedd ar gynigion a gyflwynwyd.

Rhan 1 - Crynodeb o'r Prosiect

Nodir manylion llawn y blaenoriaethau buddsoddi yn y Prosbectws. Rhaid i gynigion ddangos sut maen nhw'n cyd-fynd ag o leiaf un o'r blaenoriaethau.

Os yw'r prosiect arfaethedig yn bwriadu cyflawni o dan fwy nag un flaenoriaeth, rhwch amcangyfrif o ganran yr arian a fydd yn cael ei wario o dan bob blaenoriaeth yn Atodiad B - Pecyn a Phroffil Cyllido.

1 b i 1 f Esboniwch yn glir beth mae'r prosiect yn bwriadu ei wneud a sut y bydd yn cael ei wneud. Byddwch mor syml â phosib. Os yw'n helpu i ddefnyddio diagramau gellir eu mewnosod yn y cais. Wrth adolygu'ch cynnig, ystyriwch y cwestiynau canlynol o safbwynt rhywun nad yw'n gwybod dim byd am y sefydliad na'r prosiect:

- a yw'n glir beth fyddai'r prosiect yn ei wneud?
- a yw'n glir pwy fydd yn cyflawni'r gweithgareddau, pwy sy'n cymryd rhan a'u rolau?
- a yw'n glir sut, pryd a ble y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni (hy a fydd y prosiect yn darparu cymorth un i un, un i lawer o ddigwyddiadau/gweithgareddau, a fydd yn cael ei ddarparu mewn lleoliad penodol, ar safle busnes neu bersonol)?
- a yw'n amlwg pa unigolion a busnesau fydd yn elwa o'r prosiect, a oes ffocws ar grwpiau penodol o bobl neu fathau o fusnesau?
- a yw'n glir sut mae gweithgareddau'r prosiect yn adlewyrchu'r blaenoriaethau buddsoddi?

Os bydd y prosiect yn gweithio gyda phobl neu fusnesau, gallwch grynhoi taith y cwsmer gan ddefnyddio siart llif yn dangos gweithgareddau penodol y prosiect. Gall model rhesymeg neu theori newid hefyd helpu i egluro'ch cynnig.

1 h. Rhestrwch yr ardaloedd awdurdodau lleol a allai elwa o'r prosiect. Ar gyfer prosiectau sy'n gweithio gyda phobl neu fusnesau, dylai hyn fod yn seiliedig ar leoliad y buddiolwyr arfaethedig. Ym Mhrydain Fawr, mae'r ardal awdurdod lleol berthnasol fel y'i nodir yn y [rhestr o leoedd](#).

Gellir cyflwyno prosiect mewn un ardal neu gwmpasu sawl ardal. Gall prosiect weithredu ym mhob rhan o ardal awdurdod lleol neu ganolbwyntio ar leoedd penodol.

1 i. Rhaid i'r cerrig milltir allweddol hyn gysylltu â'r gweithgareddau arfaethedig a dangos bod modd cyflawni'r prosiect erbyn 31 Mawrth. Peidiwch â chynnwys cerrig milltir sy'n ymwneud â chymeradwyo'r cynnig. Ystyriwch:

- sicrhau cymeradwyaeth fewnol ar gyfer y prosiect neu unrhyw gyllid arall
- sefydlu tîm y prosiect
- caffael ar gyfer gwasanaethau/cyflenwyr allanol
- lansio prosiect a recriwtio buddiolwyr
- pwyntiau allweddol ar daith y buddiolwr

Bydd prosiectau'n cael eu monitro yn erbyn y cerrig milltir hyn.

Rhan 2 - Effaith y Prosiect

2 a. Ystyriwch yr effaith ar y buddiolwyr a'r hyn y mae'r sefydliadau sy'n ymwneud â chyflawni'r prosiect yn gobeithio dysgu ohono. Crynowch amcanion y prosiect. Dylai'r rhain fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac â chyfyngiadau amser. Nodwch sut mae'r prosiect yn ymateb i unrhyw fethiant yn y farchnad neu aneffeithlonrwydd cyflenwi.

Yn rhan 5 eglurwch sut y bydd perfformiad yn erbyn yr amcanion hyn yn cael ei werthuso.

2 b. Disgrifiwch sut mae gweithgareddau'r prosiect a'r effeithiau disgwyliedig yn cyfrannu at flaenoriaethau lleol a nodir mewn cynlluniau lleol. Pan fydd awdurdodau arweiniol yn gwahodd cynigion, byddant yn nodi'r blaenoriaethau twf lleol allweddol y maent wedi dewis canolbwyntio arnynt.

2 c. Nid yw'r adran hon yn ofyniad am gynigion a gyflwynir yn gyfan gwbl o dan y flaenoriaeth buddsoddi 'cefnogi cyflogaeth'. Ni fydd prosiectau o dan y flaenoriaeth buddsoddi mewn cyflogaeth dan anfantais wrth asesu a blaenoriaethu cynigion oherwydd nad yw'r maen prawf hwn yn berthnasol.

Esboniwch sut y byddai'r prosiect yn cyfrannu at Sero Net Llywodraeth y DU neu ystyriaethau amgylcheddol ehangach. Dylai prosiectau fod yn seiliedig ar arfer gorau carbon isel neu sero, mabwysiadu a chefnogi technoleg lân arloesol lle bo hynny'n bosibl a chefnogi'r sgiliau cynyddol a'r cadwyni cyflenwi i gefnogi Sero Net lle bo hynny'n bosibl.

Fel lleiafswm, dylai prosiectau fodloni'r egwyddor twf glân ac ni ddylent wrthdaro ag ymrwymiad cyfreithiol y DU i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr i Sero Net erbyn 2050.

2 d. Disgrifiwch sut mae'r prosiect yn dangos arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau, er enghraifft:

- cyflwyno dulliau cyflwyno newydd
- dulliau integredig newydd ar draws themâu polisi neu
- cydweithredu ar draws ardaloedd
- profi'r dulliau presennol gyda gwahanol fathau o fuddiolwyr
- ffyrdd newydd o ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi buddiolwyr

Mae rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio yn fwy peryglus ac mewn rhai achosion gall fod yn ddrytach na ffyrdd sefydledig o weithio. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth asesu a blaenoriaethu cynigion ac wrth fonitro prosiectau llwyddiannus.

2 e. Cwblhewch Atodiad A y cais - Dangosyddion Effaith y Prosiect.

Rhowch unrhyw wybodaeth bellach am y grwpiau neu'r is-grwpiau o bobl neu fusnesau y byddai'r prosiect yn gweithio gyda nhw. Disgrifiwch sut yr amcangyfrifwyd y nifer ym mhob grŵp.

2 f. Mae'n ofynnol i Lywodraeth y DU ystyried effeithiau cydraddoldeb yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r cwestiynau hyn yn ein helpu i ddeall sut mae ystyriaethau cydraddoldeb wedi llunio dyluniad y prosiect ac i ba raddau y mae [grwpiau gyda nodweddion gwarchoddedig](#) wedi cael eu hystyried ac unrhyw gamau lliniaru arfaethedig. Nid yw'n rhan o'r broses asesu.

2 g/h. Cwblhewch Atodiad A y cais. Rhowch unrhyw wybodaeth bellach am ganlyniadau prosiectau ac eglurwch sut mae'r ffigurau wedi'u hamcangyfrif. Er enghraifft, esboniwch y perthnasoedd rhwng nifer y buddiolwyr terfynol arfaethedig a'r canlyniadau rydych chi'n bwriadu eu cyflawni?

Bydd yn ofynnol i brosiectau adrodd ar nifer a math y buddiolwyr a gefnogir a'r canlyniadau a gyflawnir.

2 i. Disgrifiwch beth fyddai'n digwydd pe bai'r cynnig i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU yn aflwyddiannus. A fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo ar raddfa lai, a fyddai'r gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn ffordd wahanol neu yn ddiweddarach, neu oni fyddai unrhyw un o'r gweithgareddau'n digwydd?

Rhan 3 - Pecyn Cyllido

3 b. Cyllid cyfatebol yw unrhyw gyllid heblaw cyllid o Gronfa Adfywio Cymunedol y DU a fydd yn cael ei ddefnyddio i dalu costau'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys gan ymgeisydd y prosiect neu sefydliadau eraill gan gynnwys incwm gan fuddiolwyr. Nodwch o bwy y daw'r arian cyfatebol, lle bo hynny'n berthnasol.

Os yw'r prosiect yn dibynnu ar arian cyfatebol ac na chaiff ei sicrhau, eglurwch bryd y disgwylir iddo gael ei sicrhau a beth fyddai'r effaith pe na bai'n cael ei sicrhau.

3 c. Rhowch grynodedb am y swm a fydd yn cael ei wario o dan y prif feysydd gwariant. Rhaid i'r dadansoddiad fod yn ddigon manwl i ddangos bod y pecyn cyllido a'r gyllideb yn briodol i'r gweithgareddau arfaethedig ac yn ddigonol i gyflawni'r prosiect.

Enghreifftiau o'r mathau o benawdau i'w defnyddio yw:

- costau staff - cyflogau a buddion cytundebol, Yswiriant Gwladol a chyfraniadau pensiwn
- gorbenion, ar 15% o gostau staff
- teithio busnes, cynhaliaeth a llety
- ffioedd contractwyr ac ymgynghorwyr
- costau llogi deunyddiau neu leoliad
- costau marchnata a chyhoeddusrwydd
- grantiau a ddarperir i fuddiolwyr terfynol
- costau hyfforddi i gyfranogwyr e.e. lwfansau, costau teithio
- costau gofal dibynyddion y cyfranogwyr sy'n hyfforddi
- eitemau bach o offer
- gwerthuso
- cost archwilio allanol (Gogledd Iwerddon)

Mae TAW na ellir ei adfer o Gyllid a Thollau EM (HMRC) fel rhan o'r system TAW yn gymwys i gael cymorth. Amcangyfrifwch faint o TAW na ellir ei adfer y byddai'r prosiect yn ei ysgwyddo yn adran 3 c.

3 d. Disgrifiwch sut yr amcangyfrifwyd y ffigurau a ddarperir yn adran 3 c. Er enghraifft

- costau staff ar gyfer X swydd ar gyflogau o £Y pro-rata am Z mis o weithgaredd
- grantiau rhwng £X a £Y ar gyfartaledd o £Z y grant wedi'i luosi â nifer y buddiolwyr disgwylidig
- deunyddiau ar gost o £X y buddiolwr wedi'i luosi â nifer y buddiolwyr disgwylidig

Esboniwch beth sydd wedi'i wneud i brofi'r gyllideb yn gywir a sut y byddai unrhyw gostau annisgwyl neu godiadau mewn costau yn cael eu rheoli.

Rhan 4 – Profiad a Gallu Ymgeisydd y Prosiect

4 a i c. Mae cyflawniad prosiectau yn elfen sylweddol o'r meini prawf a ddefnyddir i asesu cynigion i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU. Mae'n bwysig ein bod yn gallu bod yn hyderus bod sefydliadau sy'n cael cynnig cyllid yn gallu gweithredu eu prosiectau yn gyflym ac yn effeithiol.

Gan fod Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn ceisio arloesi a dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, nid yw'n hanfodol bod gan sefydliadau sy'n ymgeisio hanes o gyflawni prosiectau tebyg. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod sefydliadau'n gallu tynnu ar brofiad perthnasol ac yn gallu dangos bod

ganddynt neu y bydd ganddynt fynediad at yr adnoddau a'r arbenigedd sydd eu hangen arnynt i gyflawni'r prosiect.

Os bydd y prosiect yn recriwtio staff neu'n penodi contractwyr, dylid cynnwys hyn yng ngherrig milltir y prosiect. Disgrifiwch y cynlluniau wrth gefn sydd ar waith i reoli'r risg os bydd oedi.

4 d. Rhaid i gostau'r prosiect fod yn seiliedig ar y gwariant gwirioneddol yr aethpwyd iddo wrth gyflawni'r prosiect, a welir trwy anfonebau neu drafodion eraill. Disgrifiwch y broses a'r rheolaethau y byddai'r sefydliad yn eu defnyddio i sicrhau mai dim ond costau sy'n gysylltiedig â'r prosiect sy'n cael eu cynnwys mewn cais am grant.

Disgrifiwch sut y bydd y prosiect yn rheoli'r risg y bydd buddiolwyr, contractwyr neu aelodau staff yn twyllo'r prosiect. Os yw'r prosiect yn cynnwys grantiau, disgrifiwch sut y bydd risg twyll yn cael ei reoli ar gamau allweddol y broses grant. Gellir dewis prosiectau Cronfa Adfywio Cymunedol y DU ar gyfer ymweliadau archwilio gan yr awdurdod arweiniol (Prydain Fawr) neu Lywodraeth y DU (Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon).

Rhan 5 - Rheoli Risgiau'r Prosiect

Cwblhewch Atodiad C. Dylai hwn ddarparu crynodeb clir o'r risgiau allweddol i gyflawni gweithgaredd y prosiect a chyflawni amcanion y prosiect.

5 b Disgrifiwch sut y bydd y risg a nodwyd yn Atodiad C yn cael ei monitro, pa systemau a ddefnyddir, pwy sy'n gyfrifol.

Byddwch yn realistig, anaml y bydd prosiectau'n rhedeg yn union fel y cynlluniwyd. Rhaid i'r prosiect ddangos bod risgiau wedi'u hystyried a bod cynlluniau priodol ar waith i gadw'r prosiect ar y trywydd iawn.

Rhan 6– Gwerthuso

Rhaid nodi cyllideb werthuso'r prosiect yn rhan 3 c. o'r cais. Dylai hyn fod yn 1 i 2% o swm Cronfa Adfywio Cymunedol y DU y gofynnir amdani, gydag isafswm trothwy o £10,000.

6 a. Disgrifiwch sut y bydd y prosiect yn cael ei werthuso. Dylai'r gwerthuso ystyried effaith y prosiect a gwersi o'r broses o gyflawni'r prosiect.

Yn gyffredinol, dylai gwerthuswyr fod yn annibynnol ar y prosiect a bod ag arbenigedd gwerthuso priodol. Fodd bynnag, yn achos prosiectau llai, efallai na fydd hyn yn angenrheidiol nac yn gost-effeithiol a gellid cynnal gwerthusiad yn fewnol, ac os felly dylai rhywun â'r sgiliau angenrheidiol ei gynnal o hyd a dylai fod yn destun adolygiad annibynnol.

Bydd y dull yn amrywio yn dibynnu ar raddfa a natur pob prosiect. Fodd bynnag, disgwylir i bob gwerthusiad ystyried y themâu canlynol:

- priodoldeb y dyluniad cychwynnol
- cynnydd yn erbyn targedau
- cyflwyno a rheoli
- canlyniadau ac effaith
- gwerth am arian
- gwersi a ddysgwyd

Disgrifiwch sut y bydd y gwerthusiad yn cael ei ddefnyddio i lywio gweithgaredd yn y dyfodol a sut y bydd yn cael ei rannu ag eraill.

Rhan 7 - Cymorthdaliadau a/neu Gymorth Gwladwriaethol lle bo hynny'n berthnasol

7 a/b Os bydd y prosiect yn darparu cymorth i fusnesau neu sefydliadau sector cyhoeddus/gwirfoddol sy'n gweithredu mewn ffordd fasnachol mae potensial i'r cymorth hwn gynrychioli cymhorthdal.

Pe bai'r prosiect yn cynnwys dyfarnu cymorthdaliadau, eglurwch sut y bydd hyn yn cael ei reoli yn unol â rhwymedigaethau'r DU. Er enghraifft, gellir rheoli dyfarniadau ar raddfa fach o dan y trothwy ar gyfer Hawliau Arbennig Tynnu Arian (neu De Minimis lle mae Cymorth Gwladwriaethol yn berthnasol).

Os yw'r prosiect yn darparu cymorth i fusnesau ond rydych yn teimlo nad yw hyn yn gyfystyr â chymhorthdal, eglurwch pam.

Rhan 8 - Brandio a Chyhoeddusrwydd

Cadarnhewch y bydd y prosiect yn cydymffurfio â gofynion brandio a chyhoeddusrwydd a nodir yn nogfen Gofynion Technegol a Chanllawiau'r Gronfa. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu gwrthod eich cynnig.